# Cymorth i Aros - Cymru

## Ffurflen Gais

llyw.cymru/cymorthiaros

**Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformatau eraill yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cysylltwch â ni i drafod eich anghenion yn** Ceisiadau@cymorthiaros.cymru

## Cyfrinachol

**Cyn gwneud cais am Gynllun Cymorth i Aros Cymru, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y canllawiau ac wedi cynnal yr asesiadau cymhwysedd cychwynnol sydd ar gael yn** llyw.cymru/cymorthiaros

Llenwch y manylion canlynol:

**Adran 1:** Manylion personol holl berchnogion a deiliaid yr eiddo

**Adran 2:** Cymhwysedd

**Adran 3:** Gwybodaeth am yr Eiddo

**Adran 4:** Gwybodaeth Ychwanegol a Datganiad

**Adran 5:** Rhestr wirio wrth wneud cais

Darperir nodiadau cyfarwyddyd yn Adran 6 i gefnogi'r broses o gwblhau eich cais. Os oes angen unrhyw gymorth ychwanegol arnoch, anfonwch e-bost at Ceisiadau@cymorthiaros.cymru

***Cofiwch:***

1 *Er mwyn lleihau'r oedi cyn prosesu eich cais, gwnewch yn siŵr bod pob adran yn cael ei llenwi a'i chwblhau gyda'r blychau priodol wedi'u ticio, a bod yr holl ddogfennau perthnasol yn cael eu darparu. Bydd unrhyw geisiadau sydd ddim yn cynnwys yr wybodaeth hon yn cael eu dychwelyd a gallant arwain at oedi.*

2 *Os ydych chi'n llenwi â llaw, llenwch bob adran yn llawn gan ddefnyddio PRIFLYTHRENNAU yn y blychau perthnasol.*

3 *Bydd y Ffurflen Gais Cymorth i Aros Cymru hon yn cael ei phrosesu a'i rheoli gan Fanc Datblygu Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Adolygwch **Bolisi Preifatrwydd** Cymorth i Aros Cymru i gael rhagor o fanylion am sut bydd Banc Datblygu Cymru yn prosesu ac yn storio eich data personol.*

Anfonwch y ffurflen gais Cymorth i Aros Cymru hon wedi'i llenwi, ynghyd â'r dogfennau gofynnol, drwy e-bostio:

E-bost: Ceisiadau@cymorthiaros.cymru

Neu drwy'r post i:

**Cymorth i Aros - Cymru**
**Banc Datblygu Cymru**
**1 Capital Quarter**
**Stryd Tyndall**
**Caerdydd**
**CF10 4BZ**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch cwblhau'r cais hwn neu os hoffech gael copi o'r ffurflen gais, anfonwch e-bost at: Ceisiadau@cymorthiaros.cymru

## ADRAN 1: PERSONOL

### 1.1 Manylion personol y perchennog/deiliaid

Rhowch fanylion holl berchnogion a deiliaid yr eiddo. Dylai hyn gynnwys pob unigolyn a restrir ar forgais a/neu weithredoedd yr eiddo ynghyd ag unrhyw un sy'n 18 oed neu drosodd sy'n byw yn yr eiddo. Os oes mwy na phedwar perchennog/deiliad, rhowch fanylion yn Adran 7: Gwybodaeth ychwanegol.

**Perchennog/Deiliad 1**

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl:** – Mr, Mrs, Miss, Dr, Parch (Dileer fel y bo'n briodol) | | | | | | | | | | |
| **Enw Llawn:** **(Gan gynnwys pob enw canol)** | | | | | | | | | | |
| **Dyddiad geni:** | D | D | / | M | M | / | B | B | B | B |
| **Cyfeiriad Presennol:** | | | | | | | | | | |
| **Cod Post:** | | | | | | | | | | |
| **Rhif cyswllt:** | | | | | | | | | | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | | | | | | | | | |
| **Statws Priodasol:** | | | | | | | | | | |
| **Cenedligrwydd:** | | | | | | | | | | |
| **Ydych chi'n berchennog cyfreithiol ar yr eiddo?** | **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ | | | | | | |
| **Ydych chi'n breswylydd parhaol yn y DU?** | **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ | | | | | | |
| **Oes gennych chi ganiatâd amhenodol i aros yn y DU?** | **Oes** | ☐ | **Nac oes** | ☐ | | | | | | |

**Perchennog/Deiliad 2**

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl:** – Mr, Mrs, Miss, Dr, Parch (Dileer fel y bo'n briodol) | | | | | | | | | | |
| **Enw Llawn:** **(Gan gynnwys pob enw canol)** | | | | | | | | | | |
| **Dyddiad geni:** | D | D | / | M | M | / | B | B | B | B |
| **Cyfeiriad Presennol:** | | | | | | | | | | |
| **Cod Post:** | | | | | | | | | | |
| **Rhif cyswllt:** | | | | | | | | | | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | | | | | | | | | |
| **Statws Priodasol:** | | | | | | | | | | |
| **Cenedligrwydd:** | | | | | | | | | | |
| **Ydych chi'n berchennog cyfreithiol ar yr eiddo?** | **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ | | | | | | |
| **Ydych chi'n breswylydd parhaol yn y DU?** | **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ | | | | | | |
| **Oes gennych chi ganiatâd amhenodol i aros yn y DU?** | **Oes** | ☐ | **Nac oes** | ☐ | | | | | | |

**Perchennog/Deiliad 3**

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl:** – Mr, Mrs, Miss, Dr, Parch (Dileer fel y bo'n briodol) | | | | | | | | | | |
| **Enw Llawn:** **(Gan gynnwys pob enw canol)** | | | | | | | | | | |
| **Dyddiad geni:** | D | D | / | M | M | / | B | B | B | B |
| **Cyfeiriad Presennol:** | | | | | | | | | | |
| **Cod Post:** | | | | | | | | | | |
| **Rhif cyswllt:** | | | | | | | | | | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | | | | | | | | | |
| **Statws Priodasol:** | | | | | | | | | | |
| **Cenedligrwydd:** | | | | | | | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydych chi'n berchennog cyfreithiol ar yr eiddo?** | **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ |
| **Ydych chi'n breswylydd parhaol yn y DU?** | **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ |
| **Oes gennych chi ganiatâd amhenodol i aros yn y DU?** | **Oes** | ☐ | **Nac oes** | ☐ |

**Perchennog/Deiliad 4**

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl:** – Mr, Mrs, Miss, Dr, Parch (Dileer fel y bo'n briodol) | | | | | | | | | | |
| **Enw Llawn:** **(Gan gynnwys pob enw canol)** | | | | | | | | | | |
| **Dyddiad geni:** | D | D | / | M | M | / | B | B | B | B |
| **Cyfeiriad Presennol:** | | | | | | | | | | |
| **Cod Post:** | | | | | | | | | | |
| **Rhif cyswllt:** | | | | | | | | | | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | | | | | | | | | | |
| **Statws Priodasol:** | | | | | | | | | | |
| **Cenedligrwydd:** | | | | | | | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydych chi'n berchennog cyfreithiol ar yr eiddo?** | **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ |
| **Ydych chi'n breswylydd parhaol yn y DU?** | **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ☐ |
| **Oes gennych chi ganiatâd amhenodol i aros yn y DU?** | **Oes** | ☐ | **Nac oes** | ☐ |

## 1.2 Unrhyw ofynion ychwanegol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| A oes unrhyw beth y mae angen i'r cynllun fod yn ymwybodol ohono mewn perthynas â'ch cais. | Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |
| Os oes, rhowch ragor o wybodaeth neu gall triniwr achos drafod hyn ymhellach ar ôl derbyn eich ffurflen gais. | | | | |
| | | | | |

## 1.3 Pwy yw'r ymgeisydd gorau ar gyfer unrhyw gwestiynau neu ymholiadau sy'n codi o'r cais?

| | |
|---|---|
| Enw'r ymgeisydd: | |
| Y dull gorau o gysylltu? | |

## ADRAN 2: CYMHWYSEDD

I fod yn gymwys ar gyfer Cynllun Cymorth i Aros Cymru, rhaid i'ch prif gartref fod yng Nghymru ac ni chewch fod yn berchen/rhannol berchen ar unrhyw eiddo arall. Rhaid i werth yr eiddo fod yn £300,000 neu lai a bod yn glir o unrhyw ddyledion eraill sicredig (ac eithrio eich morgais arwystl 1af). Ni chaiff cyfanswm incwm eich cartref fod yn fwy na £67,000 ac mae'n rhaid eich bod hefyd wedi trafod eich sefyllfa ariannol bresennol gyda'ch benthyciwr presennol.
Cyn gwneud cais, rhaid i chi fod wedi gofyn am gyngor annibynnol am ddim ar ddyledion a gallu dangos tystiolaeth o argymhellion cyngor ar ddyledion, gan gynnwys eich adolygiad incwm a gwariant.

Cyn llenwi'r ffurflen gais hon, dylech fod wedi darllen a deall y Canllawiau Cymorth i Aros - Cymru i Ymgeiswyr, sydd ar gael yma https://www.llyw.cymru/cymorth-i-aros-cymru-canllawiau-i-ymgeiswyr

### 2.1 Cymhwysedd Eiddo Preswyl

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad yr eiddo:** | |
| **Cod Post:** | |
| **Faint yw gwerth yr eiddo yn eich barn chi?** | **£** |
| **Faint o bobl dan 18 oed sy'n byw yn eich eiddo ar hyn o bryd?** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **A fydd gan unrhyw un o'r ymgeiswyr sy'n berchen ar yr eiddo berchnogaeth gyfreithiol lawn neu rannol ar unrhyw eiddo arall, boed hynny yn y DU neu dramor?** | | | |
| **Bydd**<br>Os atebwch 'Bydd', rhowch fwy o wybodaeth) | ☐ | **Na fydd** | ☐ |

### 2.2 Y benthyciwr yn ymwybodol o'r amgylchiadau

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydych chi wedi cysylltu â'ch benthyciwr i drafod eich amgylchiadau cyfredol?** | **Do** | ☐ | **Naddo** | ☐ |
| **A yw eich benthyciwr wedi cynnig unrhyw gymorth i chi yng nghyswllt eich morgais arwystl cyntaf?** | **Do** | ☐ | **Naddo** | ☐ |
| Os atebwch 'Do', rhowch y manylion yma. | | | | |
| **Ydych chi wedi derbyn eu cynnig?** | **Do** | ☐ | **Naddo** | ☐ |
| Os nad ydych chi wedi gwneud, esboniwch pam yma. | | | | |

## 2.3 Cyngor ar Ddyledion, incwm a gwariant

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ydych chi wedi ceisio cyngor ar ddyledion gan ddefnyddio un o'r darparwyr cyngor ar ddyledion? | Do | ☐ | Naddo | ☐ |
| Pa gwmni wnaethoch chi ei ddefnyddio? | | | | |
| A yw holl berchnogion yr eiddo wedi cwblhau adolygiad incwm a gwariant gyda chynghorydd dyled? | Do | ☐ | Naddo | ☐ |
| Ydych chi'n gallu darparu llythyr argymell gan gynghorydd dyledion? | Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| Ydych chi'n dilyn yr argymhelliad cyngor ar ddyledion, neu ydych chi yn y broses o wneud hynny? | Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| Rhowch ragor o wybodaeth isod i gefnogi eich ymateb | | | | |
| | | | | |

## 2.4 Incwm y cartref

Dylai incwm y cartref gynnwys pob ymgeisydd (perchnogion a deiliaid 18 oed neu drosodd). Rhaid i hyn gynnwys holl berchnogion yr eiddo, ni waeth a yw un ohonynt yn byw mewn man arall ai peidio.

| Enw'r perchennog neu'r deiliad | Cyfanswm yr incwm gros a ddaw i law.<br>Misol / Bob 4 wythnos / Bob pythefnos / Bob wythnos |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| O incwm a gwariant cyfunol eich cartref, pa swm misol allwch chi fforddio ei dalu yn erbyn eich morgais? | Swm<br>£ |

## ADRAN 3: GWYBODAETH AM YR EIDDO

### 3.1 Manylion y Morgais

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwy yw eich benthyciwr morgais?** | | | | | | |
| **Cyfeirnod y morgais:** | | | | | | |
| **Beth yw'r balans sy'n weddill, gan gynnwys unrhyw ôl-ddyledion a thaliadau dyledus:** | **£** | | | | | |
| **Os oes gennych chi ôl-ddyledion neu os oes gennych chi daliadau wedi codi, cadarnhewch y swm.** | **£** | | | | | |
| **Beth yw eich taliad morgais misol dan gontract?** | **£** | | | | | |
| **Sawl blwyddyn a mis sydd ar ôl ar eich morgais?** | | | | | | |
| **Beth yw'r gyfradd llog gyfredol?** | | | | | | |
| **Beth yw'r dull ad-dalu?** | **Ad-dalu** | ☐ | | **Llog yn Unig** | ☐ | |
| **A yw eich morgais ar gyfradd sefydlog neu amrywiadwy?** | **Sefydlog** | ☐ | | **Amrywiadwy** | ☐ | |
| **Os ydych chi ar gyfradd sefydlog, a oes unrhyw daliadau ad-dalu cynnar i adael y cynnyrch hwn?** | **Oes** | ☐ | | **Nac oes** | ☐ | |
| **Os atebwch 'Oes', pryd mae'r taliadau ad-dalu cynnar yn dod i ben?** | M | M | B | B | B | B |
| **Oes gennych chi unrhyw arwystlon eraill wedi'u cofrestru yn erbyn yr eiddo?** | **Oes** | ☐ | | **Nac oes** | ☐ | |
| **Os atebwch 'Oes', rhowch ragor o fanylion am yr arwystlon hynny.** | | | | | | |
| **Ydych chi wedi cael hysbysiad o adfeddiannu neu fwriad i gychwyn achos adfeddiannu?** | **Do** | ☐ | | **Naddo** | ☐ | |
| **Os atebwch 'Do', rhowch ragor o fanylion.** | | | | | | |

## 3.2. Gwybodaeth am yr eiddo

| Math o eiddo? | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Fflat/Maisonette wedi'i drosi | ☐ | Byngalo sengl | ☐ | Byngalo teras | ☐ |
| Tŷ sengl | ☐ | Byngalo pâr | ☐ | Tŷ teras | ☐ |
| Fflat/maisonette wedi'i adeiladu'n bwrpasol | ☐ | Tŷ pâr | ☐ | Fflat Stiwdio | ☐ |
| **Math o Berchnogaeth** | | | | | |
| Safonol | ☐ | Ecwiti a Rennir | ☐ | Rhanberchnogaeth | ☐ |
| **Os yw'n Ecwiti a Rennir, pa fath?** | | | | | |
| Cyfran Ecwiti Adeiladwyr | ☐ | Cymdeithas Dai / Awdurdod Lleol | ☐ | Cymorth i Brynu | ☐ |
| Oedran yr eiddo? | | | | | |
| **Beth yw deiliadaeth yr eiddo?** | | | | | |
| Rhydd-ddaliad | ☐ | Lesddaliad | ☐ | | |
| Nifer yr ystafelloedd gwely? | | | | | |

## ADRAN 4: GWYBODAETH YCHWANEGOL A DATGANIAD

### 4.1 Dewis iaith

Rhowch eich dewis iaith ar gyfer cyfathrebu â ni.

| | Cymraeg | Saesneg |
|---|---|---|
| Perchennog/Deiliad 1 | ☐ | ☐ |
| Perchennog/Deiliad 2 | ☐ | ☐ |
| Perchennog/Deiliad 3 | ☐ | ☐ |
| Perchennog/Deiliad 4 | ☐ | ☐ |

### 4.2 Sut clywsoch chi am Gynllun Cymorth i Aros - Cymru?

| Rhowch ymateb: |
|---|
| |

### 4.3 Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth:

**Darllenwch yr adran ganlynol, a thiciwch y datganiadau cadarnhau a'r cytundebau canlynol yn adran 4.4 fel y bo'n briodol.**

Mae'r adran hon yn nodi sut byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yn y cais hwn.

Buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru (11) Limited ydym ni. Rydym yn gweinyddu Cynllun Cymorth i Aros Cymru (y "Cynllun"). Byddwn yn prosesu'r data personol rydych chi wedi'i roi i ni yn y ffurflen gais hon i asesu a ydych chi'n gymwys i gael cymorth gan y Cynllun ac i weinyddu a rheoli eich cais. O dan y gyfraith diogelu data, rhaid i ni gael sail gyfreithiol ddilys dros gasglu a defnyddio eich gwybodaeth bersonol. Pan fyddwch chi'n gwneud cais am fenthyciad gyda ni, gall y seiliau cyfreithiol canlynol fod yn berthnasol:

- Perfformiad contract
- Rhwymedigaeth gyfreithiol:
- Buddiannau dilys

Efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth am eich cais â thrydydd partïon fel asiantaethau gwirio credyd, sefydliadau atal troseddau ariannol, unrhyw un o'n cwmnïau cysylltiedig, Llywodraeth Cymru, ac asiantau cysylltiedig.

Os bydd unrhyw wybodaeth a roddwch i ni yn cynnwys data categori arbennig, er enghraifft data am eich iechyd, ni fyddwn yn casglu nac yn defnyddio'r data hwn heb eich caniatâd oni bai fod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Os byddwn ni'n gwneud hynny, dim ond o dan un o'r seiliau cyfreithiol canlynol y bydd yn berthnasol:

- Am resymau sydd o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd; neu

- Rydyn ni wedi cael eich caniatâd penodol i wneud hynny; neu
- Sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych chi hawliau y mae angen i ni roi gwybod i chi amdanynt, gan gynnwys y canlynol:

- **Hawl mynediad** - Mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol a gedwir amdanoch.
- **Hawl i gywiro** – Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro data personol anghywir amdanoch chi, a hefyd i ofyn i ni lenwi gwybodaeth sy'n anghyflawn yn eich barn chi.
- **Hawl i ddileu** – Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu eich data personol.
- **Hawl i wrthwynebu prosesu** – Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol.
- **Hawl i gyfyngu ar brosesu** – Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawl i gyfyngu ar brosesu eich data personol (er enghraifft, os ydych yn credu bod angen y data arnoch er mwyn sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliad cyfreithiol)

Mae'r hawliau sydd ar gael i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich data.

I gael rhagor o wybodaeth am sut a pham rydym yn defnyddio eich data personol, am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol, yn ogystal â rhagor o wybodaeth am eich hawliau a sut i'w defnyddio, edrychwch ar ein Polisi Preifatrwydd, y gellir cael copi ohono yma neu cysylltwch â ni yn sdd@bancdatblygu.cymru neu ysgrifennwch atom: Y Swyddog Diogelu Data, **Cymorth i Aros Cymru, 1 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ.**

I ddeall mwy am eich hawliau data, rydym yn argymell eich bod yn mynd i'r adran 'Your Data Matters' ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu mathau ffisegol o ddilysu hunaniaeth pan fyddwch yn gwneud cais i'r Cynllun. Fel arall, efallai y byddwn yn chwilio drwy ffeiliau asiantaethau gwirio credyd wrth asesu eich cais. Mae'r asiantaeth hefyd yn rhoi manylion a gwybodaeth arall i ni o'r Gofrestr Etholiadol i gadarnhau pwy ydych chi. Mae'r asiantaeth yn cadw cofnod o'n proses chwilio, p'un ai a yw eich cais yn mynd rhagddo ai peidio.

## 4.4 Cadarnhad a Chytundebau:

Darllenwch y datganiadau isod a thiciwch y blwch priodol i gadarnhau eich bod wedi darllen a chytuno â phob un o'r datganiadau:

| | |
|---|---|
| Rwyf i/rydym ni yn cadarnhau bod yr holl wybodaeth yn y ffurflen gais hon neu a ddarperir fel arall gennyf i/gennym ni i gefnogi'r cais o dan Cymorth i Aros Cymru, hyd eithaf fy ngwybodaeth, yn wir, yn gywir, yn gyflawn, yn gyfredol ac nid yw'n gamarweiniol. | ☐ |
| Rwyf i/rydym ni'n ymwybodol y byddwch yn dibynnu ar wirionedd, cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a ddarperir gennyf i/gennym ni wrth brosesu fy/ein cais i gymryd rhan yn y Cynllun. | ☐ |
| Rwyf i/rydym ni'n cydnabod, os bydd unrhyw wybodaeth a roddaf i chi yn anghywir neu'n gamarweiniol, y gallwch dynnu'n ôl unrhyw gynnig a wnaed gennych i gymryd rhan yn y Cynllun ac y byddwch yn cysylltu â'r asiantaethau atal twyll perthnasol fel y bo'n briodol. | ☐ |
| Rydw i/rydym ni yn cytuno i roi gwybod i chi os bydd unrhyw un o'm/ein hamgylchiadau yn newid ar unrhyw adeg. | ☐ |
| Rwyf i/rydym ni wedi darllen a chytuno i Delerau ac Amodau a Pholisi Preifatrwydd Cymorth i Aros Cymru. | ☐ |
| Rydw i/rydym ni yn rhoi caniatâd i ryddhau gwybodaeth i'n benthyciwr morgais fy mod i/ein bod ni wedi gwneud cais i'r cynllun. | ☐ |
| Rwyf i/Rydym ni yn cydnabod mai cyfnod y benthyciad rhannu ecwiti Cymorth i Aros Cymru yw 15 mlynedd (yn amodol ar adbryniant cynharach yn unol â darpariaethau'r benthyciad ecwiti a rennir). | ☐ |
| Rwyf i/Rydym ni yn cydnabod ymhellach bod Llywodraeth Cymru wedi penodi Buddsoddiadau Banc Datblygu Cymru (11) Limited fel yr Asiant i reoli Cynllun Cymorth i Aros Cymru, ac y bydd yr holl ohebiaeth a thaliadau sy'n ofynnol o dan Gynllun Cymorth i Aros Cymru yn cael sylw yng Nghynllun Cymorth i Aros Cymru. | ☐ |
| Rwyf i/Rydym ni yn awdurdodi Cymorth i Aros i ofyn am chwiliadau gan asiantaethau gwirio credyd a fydd yn rhoi gwybodaeth am gredyd yn ogystal â gwybodaeth o'r Gofrestr Etholiadol. Bydd yr asiantaethau hyn yn cofnodi manylion unrhyw chwiliadau p'un a yw'r cais hwn yn mynd rhagddo ai peidio. | ☐ |

### 4.5 Datganiad:

Rwyf/rydym ni'n cadarnhau fy mod/ein bod wedi darllen y cadarnhad a'r cytundebau yn adran 4.4 ac wedi cydnabod fy/ein cytundeb gyda phob un o'r datganiadau.

| **Ymgeisydd 1** | **Ymgeisydd 2 (fel y bo'n berthnasol)** |
|---|---|
| **Llofnod:** | **Llofnod:** |
| **Enw mewn llythrennau bras:** | **Enw mewn llythrennau bras:** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |
| **Ymgeisydd 3 (fel y bo'n berthnasol)** | **Ymgeisydd 4 (fel y bo'n berthnasol)** |
| **Llofnod:** | **Llofnod:** |
| **Enw mewn llythrennau bras:** | **Enw mewn llythrennau bras:** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |

### 4.6 Gwybodaeth am y cyfrinair

| **Er mwyn ein helpu i ganfod pwy ydych chi a diogelu'r dogfennau sy'n sensitif i ddata rydyn ni'n eu hanfon atoch chi, rhowch gyfrinair ac awgrym priodol ar gyfer eich cyfrinair sy'n gofiadwy i chi. Dim ond llythrennau bach a/neu rifau y gall eich Cyfrinair eu cynnwys, heb fylchau.** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfrinair:** | | **Cliw Cyfrinair:** | |

## 4.7 Cymorth gyda'r cais

Os yw’r cais wedi’i gwblhau gan drydydd parti, rhowch wybodaeth am bwy sydd wedi darparu’r wybodaeth hon:

| | | |
|---|---|---|
| Teitl: – Mr, Mrs, Miss, Dr, Parch (Dileer fel y bo’n briodol) | | |
| Enw: | | |
| Cwmni: | | |
| Rhif cyswllt: | | |
| Cyfeiriad e-bost: | | |

**NODWCH Y GALL CAMAU GAEL EU CYMRYD YN ERBYN UNRHYW UN SY’N GWYBOD EU BOD YN RHOI GWYBODAETH ANWIR NEU GAMARWEINIOL, GAN GYNNWYS AD-DALU'R COSTAU A YSGWYDDIR GAN Y CYNLLUN.**

**GALL EICH CARTREF GAEL EI ADFEDDIANNU OS NA FYDDWCH YN PARHAU I WNEUD AD-DALIADAU AR EICH MORGAIS NEU DDYLED ARALL SYDD WEDI’I DIOGELU ARNO.**

## ADRAN 5: RHESTR WIRIO

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cynnwys y wybodaeth ganlynol fel rhan o'ch cais cyn cyflwyno er mwyn osgoi unrhyw oedi diangen.

| Gofyniad | Do/Naddo |
|---|---|
| Mae'r ffurflen gais wedi'i llenwi'n i gyd | |
| Dogfennau | |
| Mae pob perchennog a deiliad 18 oed a throsodd wedi darparu 6 mis o ddatganiadau banc cyfredol | |
| Mae pob perchennog a deiliad 18 oed a throsodd wedi darparu dogfennau i ddangos tystiolaeth o incwm e.e. slipiau cyflog, tystiolaeth o enillion hunangyflogedig. | |
| Mae pob perchennog wedi darparu crynodebau incwm a gwariant a ddarparwyd drwy gyngor ar ddyledion | |
| Mae pob perchennog wedi darparu tystiolaeth o'u llythyr argymell cyngor ar ddyledion | |
| Cadarnhad | |
| Mae pob perchennog/deiliad dros 18 oed wedi darllen a chytuno i'r cadarnhad a'r cytundebau | |
| Mae pob perchennog/deiliad wedi darllen, llofnodi a dyddio'r datganiad | |

# ADRAN 6: CANLLAWIAU

Mae'r wybodaeth ganlynol yn rhoi canllawiau ychwanegol ar lenwi'r cwestiynau a nodir yn Adrannau 1-3 (cynhwysol) o'r Ffurflen Gais hon ar gyfer Cymorth i Aros Cymru. I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, edrychwch ar y ddogfen Canllawiau i Ymgeiswyr Cymorth i Aros Cymru sydd ar gael yn llyw.cymru/cymorthiaros

## ADRAN 1: MANYLION PERSONOL

**1.1** **Manylion personol** – rhaid i'r ymgeiswyr a restrir gynnwys yr holl berchnogion cofrestredig ac unrhyw oedolyn dros 18 oed sy'n byw yn yr eiddo hyd yn oed os nad ydynt yn berchen ar yr eiddo.

**1.2** **Anghenion ychwanegol** – Nodwch a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol ar gyfer unrhyw ymgeisydd.

**1.3** **Y ffordd orau o gysylltu** – Rhowch wybod i ni os byddai'n well gennych i ni gysylltu ag unrhyw ymgeisydd penodol ynghylch unrhyw gwestiynau a allai godi drwy gydol y broses ymgeisio.

## ADRAN 2: CYMHWYSEDD

**2.1** **Cyfeiriad yr eiddo** – Dyma'r cyfeiriad y bydd y benthyciad ecwiti yn cael ei sicrhau yn ei erbyn a rhaid i o leiaf un perchennog yr eiddo fyw yn y cyfeiriad hwn fel eu prif gartref.

**Faint yw gwerth yr eiddo?** – I fod yn gymwys, ni all eich eiddo fod werth mwy na £300,000. Bydd hyn yn cael ei gadarnhau gan brisiwr os bydd eich cais yn mynd rhagddo. Yn y cyfamser, i gael arweiniad ar faint yw gwerth eich cartref, gallai un o'r canlynol helpu, 1) Gwiriwch a allai eich eiddo fod wedi codi mewn gwerth ar Zoopla, 2) Chwiliwch am eiddo tebyg ar werth yn eich cod post ar Rightmove, 3) Defnyddiwch gyfrifiannell mynegai prisiau tai Nationwide.

**Perchen ar unrhyw eiddo arall** – Cadarnhewch a fydd gan unrhyw berchnogion yr eiddo berchnogaeth dros unrhyw eiddo arall, waeth beth yw eu defnydd neu eu lleoliad, nawr neu ar adeg cymeradwyo benthyciad ecwiti Cymorth i Aros Cymru.

**2.2** **Benthyciwr** – Dylai eich benthyciwr fod yn ymwybodol o'ch amgylchiadau, a dylech fod wedi archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael i chi drwy'r rhain, er mwyn datrys eich sefyllfa ariannol.

**2.3** **Cyngor ar Ddyledion, incwm a gwariant** – Dylai holl berchnogion yr eiddo fod wedi gofyn am gyngor annibynnol am ddim ar ddyledion i gefnogi eu sefyllfa ariannol.

**Pa gwmni Cyngor Dyledion a ddefnyddiwyd** – Rhowch enw'r gwasanaeth cyngor ar ddyledion a ddefnyddiwyd.

**Llythyr Argymell Cyngor ar Ddyledion** – Dylai'r cynghorydd dyledion fod wedi cyhoeddi llythyr argymell yn seiliedig ar eu cyngor. Bydd angen cyflwyno'r llythyr hwn gyda'r cais. Gall hyn fod ar ffurf papur neu electronig.

**Gweithredu Argymhellion Cyngor ar Ddyledion** – Mae'n ofynnol eich bod wedi gweithredu neu wrthi'n gweithredu ar argymhellion eich cynghorydd dyledion. Rhowch fanylion

**Crynodeb Incwm a Gwariant** – Fel rhan o'r cyngor ar ddyledion, dylai'r cynghorydd fod wedi mynd drwy asesiad incwm a gwariant. Bydd y cynllun yn gofyn am gopi o grynodeb yr asesiad hwn.

**Swm misol y morgais sy'n daladwy** – Dyma faint o arian rydych chi'n credu y gall eich cartref fforddio ei dalu tuag at swm eich morgais. Bydd hyn yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun.

**2.4** **Cymhwysedd Ariannol**- Rydym yn gofyn i bob ymgeisydd gadarnhau faint o incwm a dderbynnir. Bydd hyn ar gyfer pob perchennog ac unrhyw un sy'n byw yn yr eiddo er mwyn sicrhau nad yw incwm yr aelwyd yn fwy na'r trothwy uchaf o £67,000.

**ADRAN 3: GWYBODAETH AM YR EIDDO**

**3.1** **Manylion morgais** – Bydd angen i chi roi manylion i ni am sut mae eich morgais yn gweithio. Bydd eich benthyciwr yn gallu eich helpu gyda'r wybodaeth hon.

**Taliadau wedi'u sicrhau yn erbyn yr eiddo** – Bydd gan eich benthyciwr Arwystl wedi'i gofrestru yn erbyn yr eiddo fel gwarant ar gyfer eich morgais presennol. Os oes gennych unrhyw Arwystlon eraill wedi'u cofrestru, rhowch ragor o wybodaeth. Gallai hyn gynnwys benthyciad ail arwystl gyda chwmni arall.

**Achosion adfeddiannu** – Er mwyn ein helpu i flaenoriaethu achosion, mae angen i ni ddeall a yw eich benthyciwr eisoes wedi cychwyn achos cyfreithiol dros adfeddiannu eich cartref a'r rhesymau dros y camau hyn.

3.2 **Gwybodaeth am yr eiddo** – Rhowch fanylion yr eiddo i gefnogi'r prisiad.

**Math o berchnogaeth** – cadarnhewch sut mae eich eiddo yn eiddo i chi:

**i.** **Safonol** – os ydych chi'n unig yn berchen ar yr eiddo;
**ii.** **Ecwiti a Rennir** os gwnaethoch gymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau i'ch helpu i brynu'r eiddo;
**iii.** **Rhanberchnogaeth** – mae darparwr arall yn berchen ar gyfran o werth yr eiddo ac rydych chi'n talu rhent i landlord am y gyfran mae'n berchen arni. Nid yw'r math hwn o berchnogaeth yn dderbyniol drwy'r cynllun Cymorth i Aros.

**ADRAN 4: GWYBODAETH YCHWANEGOL A DATGANIAD**

**4.1** **Dewis iaith** – Nodwch eich dewis iaith ar gyfer cyfathrebu.

**4.2** **Sut clywsoch chi am y cynllun** – Nodwch ble clywsoch chi gyntaf am Gynllun Cymorth i Aros Cymru.

**4.3** **Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth** – Darllenwch yr adran hon yn ofalus gan fod yr adran hon yn egluro sut rydym yn defnyddio eich data personol. I gael rhagor o fanylion, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd.

**4.4** **Cadarnhad a chytundebau** – Darllenwch a thiciwch fel sy'n briodol ym mhob blwch o'r cadarnhad a'r cytundebau.

**4.5** **Datganiad** – Rhaid i bob ymgeisydd lofnodi cytundeb yn y blwch. Os na allwch fewnosod llofnod electronig, printiwch eich enw yn y cofnodion 'Llofnodwyd' a 'Printiwch eich enw'. Os oes mwy na phedwar ymgeisydd, darparwch ddatganiadau ar gyfer ymgeiswyr ychwanegol yn Adran 7.

**4.6** **Cyfrinair** – Rhowch gyfrinair y byddwn yn ei ddefnyddio i anfon unrhyw wybodaeth dros e-bost.

**4.7** **Trydydd Parti** – Rhowch wybodaeth am unrhyw barti sydd heb ei gynnwys ar y ffurflen gais, sydd wedi cwblhau'r cais.

## ADRAN 7: GWYBODAETH YCHWANEGOL

Rhowch unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen mewn ymateb i'r cwestiynau a amlinellir yn Adran 1, Adran 2, ac Adran 3. Nodwch yn glir i ba gwestiwn y mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol.